**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG GYNHALIWYD YN Y NEUADD 6 EBRILL 2023 AM 7.30YH**

**1. Yn bresennol:** Y Cyng Janet Knott (Cadeirydd), Elfyn Williams, Philip Davies, Eifion Jones, Jenny Jones, Meinir James, Viv Davies, Rheinallt Jones ac Arfon Davies (Clerc).

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng Nicola Jones, Shan Rees a Carys Thomas.

**2. Datganiadau Diddordeb**

Dim datganiadau.

**3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd**
Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

**4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 2il Mawrth 2023.**

**5. Materion yn Codi**

1. **Prosiect goleuadau yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
2. **Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
3. **Pryderon yn ymwneud â pharcio ar linellau melyn dwbl yn Llandyfaelog –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
4. **Dŵr yn rhedeg i Landyfaelog o'r briffordd yn achosi llifogydd** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
5. **FP29/4 Pentrepoeth** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
6. **Materion Gorfodaeth Cynllunio cae yn Idole –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
7. **PL/04973 – Stad Ddiwydiannol Gelligaros, Idole –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y cais cynllunio. Nodwyd bod Adran Gwarchod y Cyhoedd yn ymchwilio i'r pryderon ynglŷn â'r goleuadau ar y safle. Mynegwyd pryder eto ynglŷn â llygredd amgylcheddol posib i'r nant gyfagos.
8. **Archwiliad o gyfrifon y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2022 –** Nododd y Clerc fod cyfrifon y Cyngor yn parhau i gael eu hystyried gan Archwilio Cymru. Nodwyd.
9. **Goleuedigaeth Sir Gaerfyrddin –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
10. **Cyngor Sir Caerfyrddin – Ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i'r terfyn cyflymder 20mya –** Derbyniodd y Cyngor ddiweddariadau ar ei ymatebion i'r ymgynghoriad fel a ganlyn:
    - **Gostyngiad yn y terfyn cyflymder o Upland Arms heibio Llandyfaelog i Glanmorlais (A484) -** Nodwyd bod y 40mya arfaethedig ar gyfer yr ardal hon wedi'i gynnig i'w gyfyngu i gynnwys cyffordd igam-ogam Llandyfaelog. Bydd yna ymgynghoriad pellach gyda'r Cyngor Cymuned ar y mater.

- **Gostyngiad yn y cyfyngiad cyflymder ym Mancycapel a Chloigyn (B4309) -** Nodwyd byddai asesiad o'r lleoliad yn cael ei wneud gan swyddogion y Cyngor Sir a Heddlu GanBwyll.
- **Gostyngiad yn y cyfyngiad cyflymder yn Idole (A484)** – Nodwyd yn dilyn adolygiad o'r sylwadau a dderbyniwyd, y bwriedid rhoi mewn lle hyd byr o 20mya y tu allan i Gywion Bach.
- **Terfyn cyflymder ym Mhentrepoeth -** Roedd maint y cyfyngiad cyflymder ym Mhentrepoeth wedi'i ymestyn i gynnwys yr eiddo olaf, Maeshyfryd.

Nodwyd hyn.

11. **Damweiniau ym Mancycapel –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Roedd damwain arall wedi digwydd y diwrnod cynt yn Danybanc, bydd y Clerc yn adrodd hyn i'r Cyngor Sir ac yn gofyn am gopïau o adroddiadau'r heddlu i'r damweiniau diweddar yn y lleoliad yma.
12. **Bin Capel Rama –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
13. **Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog –** Nodwyd byddai cyfarfod pellach gan gynnwys Cyfarfod Blynyddol yr Eisteddfod yn cael ei gynnal ar 17eg Ebrill. Bwriadwyd trefnu yr Eisteddfod ar 2il Rhagfyr. Nodwyd.
14. **Gwastraff bwyd a baw cŵn yn ardaloedd Heol y Lan a Lon yr Ysgol** – Derbyniodd y Cyngor wybodaeth bod Tîm Amgylchedd y Cyngor Sir wedi ymweld â'r ardal ac wedi adnewyddu arwyddion baw cŵn, cadarnhawyd hefyd byddai angen rhagor o wybodaeth ynghylch pwy sy'n cael ei amau o adael bwyd yn yr ardal er mwyn gweithredu. Nodwyd.
15. **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – Ymgynghoriad ar safleoedd posib ar gyfer ysbyty Newydd -** Derbyniwyd adroddiadau o'r Digwyddiad Ymgynghori a gynhaliwyd ar 7fed Mawrth gan y Cyng Janet Knott a Shan Rees. Nodwyd.
16. **Un Llais Cymru / Cymorth Cynllunio Cymru –** Derbyniwyd adroddiad o'r hyfforddiant gan y Cyng Meinir James. Nodwyd hyn. Cytunwyd y Cyngor y taliad o £40.00.
17. **Digwyddiad Hyfforddi Diffibriliwr –** Darparodd y Clerc wybodaeth gan Un Llais Cymru ar y broses o ddarparu digwyddiad hyfforddi trwy Ambiwlans Sant Ioan. Bydd y Clerc yn codi'r mater gyda Phwyllgor y Neuadd Gymunedol.
18. **Rhoddion i Cruse a CISS –** Derbyniodd y Cyngor nodiadau o ddiolch am y rhoddion a wnaed yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth. Nodwyd.
19. **Digwyddiadau ymgynghori Ynni Bute** – Derbyniwyd adroddiadau ar y digwyddiad ymgynghori a gynhaliwyd yn y Neuadd. Bydd y Clerc yn ymateb i'r ymgynghoriad i nodi y byddai'r Cyngor yn annog trigolion i wneud eu sylwadau eu hunain ar y mater. Bydd pryder yn cael ei godi mewn perthynas ag effaith weledol yr is-orsaf arfaethedig pe bai hon yn cael ei lleoli yn y Gymuned ynghyd â'r aflonyddwch tebygol a fyddai'n cael ei achosi gan y gwaith datblygu yn y Gymuned. Gofynnir hefyd am gadarnhad o unrhyw fudd cymunedol posibl a allai ddod o waith y prosiect.

**Cafodd y Cadeirydd problemau technegol ac etholwyd y Cyng Elfyn Williams yn Gadeirydd am weddill y cyfarfod.**

20. **Sbwriel ochr heol -** Darparodd y Cyng Meinir James wybodaeth am weithgareddau'r Cyngor Sir mewn perthynas â sbwriel ar ochr y ffordd. Nodwyd bod y Cyngor Sir yn ymwybodol o'r broblem ond bod angen

trefniadau rheoli traffig i sicrhau diogelwch staff wrth casglu sbwriel. Roedd tîm yn cael ei hyfforddi ar gyfer gweithgareddau hel sbwriel ar ffyrdd graddfa A, nodwyd bod mwy o ahawster gyda ffyrdd gwledig. Roedd staff ychwanegol yn cael eu recriwtio hefyd. Roedd hyn yn ychwanegol at y gwaith codi sbwriel blynyddol a drefnwyd ar bob ffordd. Nodwyd.

**6. Gohebiaeth**

1. **Un Llais Cymru –** Digwyddiadau Hyfforddi. Nodwyd.
2. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Newyddion Diweddaraf. Nodwyd.
3. **Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru –** Cylchlythyr. Nodwyd.
4. **Llywodraeth Cymru –** Ymgynghoriad ar reolau cofrestru newydd ar gyfer holl geidwaid adar Prydain Fawr. Nodwyd.
5. **Llywodraeth Cymru -** Datganiad Ysgrifenedig: Iechyd Digidol Cynghorau Cymuned a Thref. Nodwyd.
6. **Llywodraeth Cymru –** Ymgynghoriad ar y Bil Tacsi a Cherbydau Hurio Preifat (Cymru). Nodwyd.
7. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Gohebiaeth ar y gwaith arwyneb ffyrdd y tu allan i Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin. Nodwyd.
8. **Llywodraeth Cymru -** Ymgynghoriad ar ymateb Adolygiad Penn (Fframwaith Safonau Moesegol Awdurdodau Lleol a Chod Ymddygiad). Nodwyd.
9. **Un Llais Cymru –** Adnewyddiad tanysgrifiad 2023-24. Cytunwyd hyn gyda chost o £239.00.
10. **Banc Barclays –** Llofnodwyd y cysoniad banc gan y Cyng Viv Davies.

**7. Cae Idole ac Amwynderau'r Cyngor**

1. Derbyniodd y Cyngor gais i'r Clerc arwyddo papurau'r Llys er mwyn bwrw ymlaen ar yr hawliad yswiriant ar gyfer y difrod cerbyd i'r ffens yn cae Idole. Cytunwyd i'r Clerc arwyddo'r ddogfen.
2. Nododd y Clerc fod y fainc yn Heol Bolahaul wedi ei symud a disgwylir gosod yr eitem newydd gan Star Forge.
3. Derbyniodd y Cyngor wybodaeth am gynnyrch selio i'w ddefnyddio yn bosibl ar y Paneli Hanes. Roedd y Cyngor yn aros am cost ar gyfer y cynnyrch hyn.
4. Derbyniodd y Cyngor brisiau ar gyfer yr archwiliad ardal chwarae blynyddol fel a ganlyn:
    - Play Inspection Company - £87.50
    - ROSPA - £85.50

   Cytunwyd i gadw'r cytundeb gyda'r Play Inspection Company oherwydd ansawdd yr adroddiad a ddarparwyd.

**8. Cytundeb yr Atgyweiriwr**

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi eu gweithio ym mis Mawrth gyda chostau defnyddiau ychwanegol ar gyfer gwaith atgyweirio a chynnal a chadw i gyfanswm cost o £704.59 yn cael ei gytuno.

**9. Ail Gynllun Datblygu Lleol Adneuo Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033**

Nododd y Cyng Philip Davies ei ddiddordeb mewn perthynas a cynigion ar gyfer ardal Llandyfaelog a gadawodd y cyfarfod ar gyfer drafodaeth o'r cynlluniau hynny. Gwnaed aelodau ystyried yr ymgynghoriad ar Ail Gynllun Datblygu Lleol Adneuo Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033. Nodwyd y wybodaeth.

**10. Adroddiad Cyllid 2022-23**

Cyflwynodd y Clerc adroddiad cyllideb 4ydd chwarter ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23. Cynhaliodd y Cyngor y monitro chwarterol a derbyniwyd yr adroddiad.

Diolchwyd i'r Clerc am ei waith gyda chofnodion ariannol y Cyngor.

**11. Asesiad Risg 2023-24**

Ystyriodd y Cyngor Ddadansoddiad Risg drafft 2023-24 a gyflwynwyd gan y Clerc. Cytunwyd y ddogfen ddrafft.

**12. Adroddiad Cyflogau Staff a Chontractau 2023-24**

Cytunwyd Cyngor cau allan y cyhoedd â’r wasg o’r cyfarfod ar gyfer yr eitem oherwydd natur y wybodaeth i drafod.

Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a chytunwyd yr eitemau canlynol.

**a) Glanheuwyr Arosfeydd Bysiau**

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd cadw taliad ar gyfer arosfan bysiau Croesyceiliog fel £100 y flwyddyn.

**b) Atgyweiriwr**

Nodwyd taw yr Atgyweiriwr oedd Michael Leefe gyda thaliad o £20.00 yr awr am y flwyddyn.

**c) Clerc y Cyngor**

Cytunwyd i gadw'r pwynt tâl presennol ar frig y raddfa berthnasol ym mhwynt 29, sef £8,148.92 ar hyn o bryd. Cadarnhaodd y Cyngor dalu lwfans o £26.00 y mis ar gyfer gweithio gartref. Roedd hyn yn cywmpasi lwfans gweithio cartref CTEM (£26.00 y mis ar hyn o bryd).

Cadarnhaodd y Cyngor y dylid talu'r lwfans teithio angenrheidiol a dalwyd ar gyfradd lwfans milltiroedd CTEM (45c y filltir ar hyn o bryd).

**13. Digwyddiadau Cymunedol 2023**

Trafododd y Cyngor Ddigwyddiadau Cymunedol posibl yn 2023 fel a ganlyn:

- Cystadleuaeth Gerddi;
    - Gerddi Llysiau – Mehefi
    - Gerddi Blodau – Awst
        - Gardd Gynhwysydd;
        - Gardd Fach;
        - Gardd Fawr.
- Cystadleuaeth Bwgan Brain;

- Cytunwyd i edrych i mewn i'r posibilrwydd o greu tarian barhaus ar gyfer y gystadleuaeth er cof am y Cyng Mair Stephens. Cytunwyd ar hyn mewn egwyddor gyda thrafodaeth i'w chynnal gyda theulu Mair.

**14. Cyfrifon**

**a) Cytunwyd y taliadau ganlynol:**

1. **Cyngor Sir Caerfyrddin** **£161.66** Costau Etholiad 2022
2. **Cymorth Cynllunio Cymru** **£40.00** Cost hyfforddiant (gweler eitem 5.16)
3. **Un Llais Cymru** **£17.50** Cost hyfforddiant
4. **Cyngor Sir Caerfyrddin** **£2,073.07** Costau goleuadau troedffordd 2022-23 (£1,727.56 gyda TAW)

| 5. | Disgrifiad | Cyflog | Costau | Cyfanswm Gros | Treth wedi tynnu ffwrdd | YG wedi tynnu ffwrdd | Cyflog Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arfon Davies** | **Cyflog Mawrth a chostau** | **£679.06** | **£26.00<br>£14.40<br>£7.00<br>£18.64** | **£745.10** | **£274.40** | **£0.00** | **£470.70** |

**6. Michael Leefe** **£705.59** Taliad Mwrth (gweler eitem 8)
**7. Un Llais Cymru** **£239.00** Tanysgrifiad 2023-24 (gweler eitem 6.9)

**b) Cadarnhaodd y Clerc derbyn ad-daliad TAW 2022-23 am y swm o £919.69.**

**15. Materion arall a godwyd gan aelodau**

1. Nodwyd bod Jamie Stiles wedi bod yn llwyddiannus yn ddiweddar gyda'i tim yn ennill trioedd Pencampwriaeth y Byd mewn Bowlio Mat Byr i Dîm Cenedlaethol Cymru. Bydd llythyr o longyfarchiadau yn cael ei anfon ato.
2. Gofynnir am gadarnhad ynghylch pryd y bydd y Cyngor Sir yn glanhau'r Cysgodfeydd Bysiau Cymunedol.
3. Adroddir am dyllau yn y ffordd i'w hatgyweirio rhwng Cilgadan a Bryncochbach
4. Bydd cyflwr arwynebau ffyrdd yn gyffredinol mewn ardaloedd gwrth-sgid yn cael ei godi gyda'r Cyngor Sir.
5. Bydd cyflwr wyneb y ffordd ar droad Llwynyreos yng Nghwmffrwd yn cael ei adrodd i'r Cyngor Sir.
6. Rhoddir gwybod i'r Cyngor Sir am pyllau dŵr rhwng Fferm Capel a Fforest.
7. Nodwyd byddai gwaith yn cael ei wneud i wella wyneb y ffordd rhwng Croesyceiliog ac Ysgol Gyfun Bro Myrddin.
8. Adroddwyd bod dŵr yn gollwng ym Maesglasnant, Nghwmffrwd.

**Cynhelir cyfarfod nesaf a Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ddydd Iau 4ydd Mai 2023.**